# Pwyllgor Y Ty

## HC(2)-09-05 (p.2)

### 20 Hydref 2005

## Datganiad Strategol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad 2003-2007

### Diben

1. I'r Aelodau Adolygu Datganiad Strategol GSC ar gyfer 2003 - 2007 ac ystyried newidiadau i adlewyrchu amgylchiadau newydd.

### Cefndir

2. Ym mis Hydref 2003, cymeradwyodd y Pwyllgor amcanion, egwyddorion a blaenoriaethau GSC yn ystod yr Ail Gynulliad, a gafodd eu cynnwys a'u datblygu yn y Datganiad Strategol sydd ynghlwm, i lywio gwaith cynllunio GSC yn ystod yr Ail Gynulliad. Mae Cynlluniau Blynyddol GSC yn cynnwys amcanion pendant a fydd o gymorth wrth gyflawni'r amcanion a bennwyd gan y Pwyllgor. Cyflawnir y rhain drwy eu hystyried mewn cynlluniau is-adrannol, a thrwy'r amcanion personol a bennir ar gyfer y staff. Mae'r rhain wedi'u cynnwys fel Atodiadau i'r Datganiad Strategol.

### Materion

3. Mae'r Datganiad yn cynnwys amcanion clir ar gyfer pob un o'r blynyddoedd y mae'n ymwneud â nhw, gan fod y rhain wedi'u pennu. Caiff adolygiadau o berfformiad GSC yn erbyn yr amcanion hyn eu cynnwys bob blwyddyn. Mae'r adolygiadau ar gyfer 2003/4 a 2004/5 ynghlwm yn Atodiad 6. Erbyn diwedd yr Ail Gynulliad, dylai'r Datganiad ddarparu cofnod o'r gwasanaethau a ddarparwyd ar gyfer yr Aelodau ac o'r ffordd y perfformiodd GSC yn ystod y cyfnod dan sylw. Trafodwyd y dogfennau hyn gyda staff GSC ac mae'r trafodaethau i'w gweld ar safle GSC ar y fewnrwyd.

4. Awgrymir bod amcanion ac egwyddorion cyffredinol y gwasanaeth yn dal yn ddilys ac y dylent aros fel y maent. Cafodd y peryglon strategol a amlinellwyd ar dudalen 6 o'r Datganiad eu hadolygu a'u cydgrynhoi fel rhan o broses gynllunio'r flwyddyn bresennol, ac o ganlyniad, cafwyd rhai fân newidiadau sy'n cael eu dangos yn y testun. Cafodd adran y rhagolwg ei pharatoi yn ystod 2003/4 ac felly y mae wedi dyddio braidd, er ei bod yn rhagweld y materion sy'n wynebu GSC heddiw yn gywir.

5. Gwahoddir yr Aelodau i godi unrhyw gwestiynau neu faterion.

## CYDYMFFURFIO

6. Nid oedd unrhyw faterion yn ymwneud â chydymffurfio.

## Y GOBLYGIADAU ARIANNOL

7. Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r papur hwn. Mae'r fframwaith a gynigir gan y Datganiad Strategol yn ceisio sicrhau cynlluniau ariannol cadarn ac asesiadau risg priodol.

## ARGYMHELLION

8. Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r ddogfen hon ac i ddweud a hoffent wneud urnhyw newidiadau.